



Papur Gwybodaeth

Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau a ddarperir gan Gymdeithasau Tai yng Nghymru

Mae gan gymdeithasau tai yng Nghymru rôl hollbwysig mewn darparu cyflogaeth a datblygu sgiliau ar gyfer eu tenantiaid a'u cymunedau ac mae'r papur gwybodaeth hwn yn rhoi sylw i'r gefnogaeth y maent yn ymwneud ag ef.

Mae landlordiaid cymdeithasol yn rhoi cartrefi i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas gan y gweithiant yng nghymunedau mwyaf amddifadus Cymru, heb fawr o gyfleoedd cyflogaeth, lefelau uchel o anghydraddoldeb iechyd a lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol.¹ Dengys Arolwg Gweithlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (2015) fod ychydig dan ddau ym mhob pump (39.1%) o'r aelwydydd hynny sy'n rhentu gan landlord cymdeithasol yn ddi-waith, o gymharu gyda 15.7% o'r rhai sy'n rhentu'n breifat.²

Mae cymdeithasau tai yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaethau a all gefnogi tenantiaid i symud allan o ddiweithdra i gyflogaeth a chyfleoedd hyfforddiant i helpu trechu tlodi, codi uchelgais a gwella cymunedau. Mae cefnogi tenantiaid i gynyddu a chadw incwm cyson yn golygu fod tenantiaid mewn sefyllfa well i dalu eu rhent a gostwng ôl-ddyledion rhent. Mae hyn yn gwneud synnwyr busnes da i gymdeithasau tai gan ei fod yn arwain at gynnydd mewn cynnal tenantiaeth, llai o amser yn cwrso ôl-ddyledion rhent a gostyngiad yn nifer yr unedau gwag.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ariannu nifer o gynlluniau i ddarparu cyflogaeth a hyfforddiant mewn sgiliau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu a dilyniant pobl ifanc, gyda'r nod o ostwng nifer y bobl ifanc heb fod

¹ A Job A Home A future National Housing Federation 2014-<http://s3-eu-west-1.amazonaws.com/pub.housing.org.uk/A-Home-A-Job-A-Future.pdf>

²

<http://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/workingandworklesshouseholds/2015-10-06>



mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), Twf Swyddi Cymru, rhaglenni cefnogi prentisiaethau a rhaglenni seiliedig ar waith.

Mae Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Plant a Chymunedau, wedi ymrwymo y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi 100,000 o brentisiaethau newydd o fewn tymor presennol y Cynulliad drwy weithio gyda rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a Chymunedau dros Waith. Mae hyn yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i drechu tlodi a chynyddu sgiliau.

Rôl Cymdeithasau Tai

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru drwy ddarparu cefnogaeth sgiliau a chyflogaeth i denantiaid a phreswylwyr yn eu cymunedau. Dengys ymatebion i arolwg Effaith Economaidd-Gymdeithasol CHC ar gyfer 2015/2016 fod darpariaeth cefnogaeth cyflogaeth a phrentisiaethau y sector yn werth £1.5m.

Caiff y cyfleodd cyflogaeth a datblygu sgiliau a ddarperir gan gymdeithasau tai ei gefnogi drwy nifer o ddulliau cyllid yn cynnwys cyllid craidd, cyllid grant a chyllid partneriaeth. Caiff darpariaeth cynlluniau ei hwyluso drwy nifer o ddulliau yn cynnwys targedu grwpiau penodol o denantiaid a phreswylwyr a darparu cefnogaeth un-i-un neu grŵp. Mae cymdeithasau tai hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau addysgol a galwedigaethol yn cynnwys coginio, diogelwch bwyd, bwyta'n iach, cyllideb a rheoli arian, celf a chrefft a hanes lleol.

Pecyn Cymorth Gwerth Cymru - Buddion Cymdeithasol

Mae nifer o gymdeithasau tai yn flaenllaw mewn darparu prentisiaethau a rhaglenni gwaith drwy ddefnyddio cymalau budd cymunedol yn eu contractau. Caiff y gwerth hwn ei gasglu drwy lenwi Pecyn Cymorth Budd Cymunedol Gwerth Cymru.

Yn 2015/15 dangosodd ymateb landlordiaid cymdeithasol i Becyn Cymorth Budd Cymunedol Gwerth Cymru fod contractau cymdeithasau tai wedi cynorthwyo 461 o bobl difreintiedig i gyflogaeth a darparu dros 13,000 wythnos o hyfforddiant.³

³ <http://chcymru.org.uk/en/view-news/latest-findings-from-the-value-wales-community-benefits-toolkit>



Astudiaeth Achos Contract a Buddion Cymunedol Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Cafodd cymalau cymdeithasol creiddiol eu cynnwys fel rhan o gontract Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) CCG yn nodi fod yn rhaid i 15% o weithlu contractwyr fod yn newydd-ddyfodiaid i hyfforddiant - un ai'n dilyn prentisiaeth neu hyfforddeiaeth, a bod 52 o wythnosau hyfforddiant yn cael eu cynhyrchu fesul £1m o wariant. Cynhwyswyd cymalau cymdeithasol heb fod yn greiddiol hefyd gyda disgwyliad i gontractwyr gymryd rhan mewn prosiectau a chynlluniau cymunedol. Cafodd yr uchod ei fonitro'n fisol a defnyddiwyd Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Cymru i benderfynu ar effaith cymharol y contract ar economi Cymru. Yng nghyswllt y contract uchod, cafodd y buddion dilynol eu sicrhau yn benodol ar gyfer 2014/15:

- 4 prentisiaeth wedi dechrau a gorffen
- 33 prentis wedi'u cyflogi yn ystod y contract
- 844 o wythnosau hyfforddiant wedi'u cynhyrchu
- 92% o'r cyfanswm gwariant wedi'i wario ar bobl yn byw yng Nghymru
- 63% o wariant ar fusnesau seiliedig yng Nghymru gyda 100% o hyn ar fusnesau bach a chanolig o Gymru
- Cyfraniadau cymunedol gwerth £17,840 at brosiectau a chynlluniau cymunedol drwy lafur neu gyfraniadau arian megis 'Cynllun Wardeiniaid Ifanc' CCG a gosod llawr newydd mewn cynllun cydweithredol cymunedol yn ardal Dwyfor
- Ffigur LM₃ o £1.78 wedi'i gynhyrchu drwy Ddull Mesur Buddion Cymunedol Cymru (roedd y ffigur hwn wedi cynyddu o £1.49 yn 2013 a £1.58 yn 2014)
- Cynnwys cymalau cymdeithasol creiddiol a heb fod yn greiddiol yn holl gontractau SATC yn ystod y cyfnod buddsoddi yn arwain at i CCG gysylltu gyda dros 200 o hyfforddeion yn cynnwys 138 prentis. Yn ystod ei frig ym mis Medi 2012 roedd rhaglen fuddsoddi SATC yn cyflogi 69 o hyfforddeion gyda 39 ohonynt yn brentisiaid cyfwerth ag amser llawn. Rhoddwyd cefnogaeth gwerth £100,533 i nifer o achosion cymunedol.



Arolwg CHC o gymdeithasau tai

Ym mis Mehefin 2016 cynhaliodd CHC arolwg o gymdeithasau tai i ganfod lefel eu hymgyfraniad mewn darpariaeth cyflogaeth a sgiliau i denantiaid a dynodi unrhyw rwystrau a brofir sy'n eu hatal rhag rhoi cefnogaeth (Atodiad 1). Nod yr arolwg cyflogaeth a sgiliau yw dangos y gwaith da sy'n digwydd o fewn y sector, rhannu arfer da a dynodi cyfleoedd ar gyfer parhau cyllid a chydweithio gyda rhaglenni presennol fydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru wrth gyrraedd y targed o 100,000 o brentisiaethau newydd.

Dengys canlyniadau'r arolwg fod dros 96% o ymatebwyr yn darparu cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau a rhaglenni datblygu. Caiff y rhaglenni hyn eu targedu'n bennaf at denantiaid ond mewn llawer o ardaloedd maent hefyd yn gymwys i breswylwyr o'r ardal honno.

Mae'r papur gwybodaeth yma'n dangos y ddarpariaeth bresennol o gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau gan gymdeithasau tai yng Nghymru ac mae canlyniadau'r arolwg yn amlinellu'r gwahanol gynlluniau mae cymdeithasau tai yn cymryd rhan ynddynt ac astudiaethau achos yn dangos ymdrechion i wella lefelau sgiliau'r rhai y maent yn ymgysylltu â nhw.

Dechreuodd CHC arolwg o gynlluniau cefnogaeth cyflogaeth a sgiliau cymdeithasau tai ar gyfer tenantiaid i ganfod lefel cymryd rhan gan gymdeithasau tai. Gofynnodd yr arolwg nifer o gwestiynau i ddynodi:

- Pa mor hir y bu'r rhaglen yn rhedeg
- Y mathau o gefnogaeth a ddarparwyd
- Y partneriaid oedd yn cymryd rhan
- Y grwpiau neu fathau o denantiaid a dargedwyd
- Y dull a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant
- Y nifer o denantiaid a gefnogwyd dros y flwyddyn ddiwethaf
- Rhwystrau a'r cyfyngiadau sy'n wynebu cymdeithasau tai
- P'un ai yw cymdeithasau tai yn bwriadu parhau gyda'u rhaglenni neu gynlluniau ai peidio.

Ymatebodd 69% o gymdeithasau tai i'r arolwg a anfonwyd i'r sector. Dengys y canlyniadau fod dros 96% o'r holl ymatebwyr yn rheoli prosiect sgiliau a chyflogaeth i gefnogi tenantiaid ac mewn rhai achosion y gymuned ehangach. Dengys hyn bod



ein haelodau yn ymwneud yn helaeth â'r agenda cyflogaeth a sgiliau ac yn cefnogi miloedd o denantiaid na fyddai fel arall yn cymryd rhan mewn cyflogaeth a sgiliau.

Dros y cyfnod 2015/16, cynorthwyodd yr ymatebwyr dros 1700 tenant gyda chyflogaeth neu ddatblygu sgiliau, ac mae lefel y cymorth yn amrywio yn dibynnu ar faint darpariaeth cymdeithasau tai a'r ardal a wasanaethir. Mae'r nifer hwn yn cynyddu pan fyddwn hefyd yn ystyried rhai heb fod yn denantiaid a gaiff hefyd eu cefnogi gan gymdeithasau tai a hefyd unrhyw gynlluniau prentisiaeth a gynigir gan y sefydliad neu unrhyw ymgyrchoedd recriwtio lleol sy'n targedu tenantiaid.

Wrth gyfrif nifer y staff sy'n ymwneud â'r rhaglenni hyn gwelwn fod hyn yn amrywio o un sefydliad i'r llall, gyda rhai sefydliadau'n defnyddio gwasanaethau un aelod o staff ac eraill â thimau mwy o rhwng 10-20 aelod o staff. Ar gyfartaledd mae gan gymdeithasau tai 4 aelod o staff yn gyfrifol am gynlluniau cyflogaeth a sgiliau. I nifer o sefydliadau, hyd yn oed er bod staff creiddiol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth, defnyddir nifer o staff o feysydd eraill i gefnogi'r gwasanaeth. Ystyrir bod cyflwyno Credyd Cynhwysol yn faes neilltuol lle galwyd staff eraill i mewn i gynorthwyo gyda chyflogaeth a datblygu sgiliau. Mae cymdeithasau tai yn gwybod am yr angen i roi mwy o gefnogaeth i denantiaid i'w helpu i gael mynediad i gyflogaeth, yn arbennig gan y bydd llawer o denantiaid yn wynebu capiau budd-dal dan Credyd Cynhwysol a gallant fel canlyniad gael problemau yn cynnal eu tenantiaethau.

Hefyd yn dod o'r amlwg o'r arolwg yw bod aelodau o staff sy'n gweithio i gefnogi tenantiaid yn y maes cyflogaeth a sgiliau yn arbenigo mewn amrywiaeth o feysydd, yn cynnwys staff llety gwarchod a chymorth, adfywio cymunedol, staff rheng-flaen tai ac mewn rhai achosion bartneriaid drwy gontractwyr. Dengys hyn y meysydd enfawr o alluoedd sydd ar gael i'r rhai sy'n derbyn cefnogaeth gan gymdeithasau tai.

Mathau darpariaeth

Dengys yr arolwg fod cymdeithasau tai yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r mwyafrif yn darparu cefnogaeth un i un i help gydag adeiladu hyder, ysgrifennu CV a datblygu sgiliau swydd. Mae cymdeithasau tai yn gweithio gyda rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed a fu'n ddi-waith am gyfnodau hir, wedi colli eu hyder ac sydd angen cefnogaeth i gynyddu'r hyder hwnnw. Mae hefyd gysylltiad agos rhwng gweithgareddau â ffrydiau cyllid lle mae peth cyllid yn benodol i rai prosiectau a rhai ardaloedd.



Siart 1: Ystod Gweithgareddau

Prentisiaethau - darparu lleoliadau i denantiaid o fewn eich sefydliad	50.00%
Prentisiaethau - cefnogi tenantiaid i brentisiaethau gyda phartneriaid, contractwyr neu yn y gymuned leol	59.09%
Hyfforddiant a chefnogaeth dan arweiniad cynghorydd	68.18%
Adeiladu hyder	86.36%
Ysgrifennu CV/help chwilio am swydd	95.45%
Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad	86.36%
Broceriaeth swydd	36.36%
Clybiau swydd	63.64%
Cymhwyster penodol i swydd	59.09%
Hyfforddiant galwedigaethol	59.09%
Hyfforddiant analwedigaethol	68.18%
Hyfforddiant cyn-cyflogaeth	77.27%
Hunangyflogaeth	40.91%
Gwirfoddoli	81.82%
Profiad Gwaith - ar dâl	27.27%
Profiad gwaith - di-dâl	86.36%
Arall (noder)	18.18%


Ffynhonnell: **Arolwg CHC ar gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau LCC Mehefin 2016**

Hyd Prosiectau

Mewn ymateb i'r cwestiwn ar ba mor hir y bu prosiectau mewn bodolaeth, bu 36% yn rhedeg am 2-3 mlynedd a 36% dros 5 mlynedd, yn dangos y bu prosiectau yn rhedeg am dros 3 blynedd ar gyfartaledd. Dengys hyn fod cymdeithasau tai wedi meithrin gallu i redeg hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth ar gyfer tenantiaid yn ogystal â phreswylwyr. Dengys hyn hefyd y bu'r buddsoddiad mewn prosiectau yn codi'n gyson dros y blynyddoedd.



Siart 2: Hyd Prosiectau



Ffynhonnell: Arolwg CHC ar gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau LCC Mehefin 2016

Cyllid

Yn nhermau cyllido'r prosiectau, dengys yr arolwg fod amrywiaeth o gyllid yn cefnogi cynlluniau hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth. Fodd bynnag, caiff cyfran fawr o'r rhaglenni eu cyllido drwy gyllid craidd o adnoddau'r sefydliadau eu hunain. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd y mae cymdeithasau tai yn ei roi ar ddarparu hyfforddiant sgiliau i denantiaid. Fodd bynnag, mae her efallai nad yw darparu cyllid creiddiol yn gynaliadwy i bob sefydliad, yn arbennig wrth i gyllidebau ostwng a hefyd anghenion tenantiaid yn cynyddu fel canlyniad i doriadau yn dilyn diwygiadau llesiant a'r cap ar fudd-daliadau. Mae'n debygol y bydd cyflwyno Credyd Cynhwysol a newidiadau i fudd-dal tai i lefelau Lwfans Tai Lleol yn arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent. Bydd hyn yn effeithio ar gynlluniau busnes cymdeithasau tai a'u cyllidebau ar gyfer darpariaeth cyflogaeth a sgiliau ar adeg pan fo anghenion tenantiaid yn cynyddu.


Mae cymdeithasau tai hefyd wedi defnyddio ffrydiau cyllid amrywiol ar gynlluniau unigol neu weithio'n agos mewn partneriaeth gyda sefydliadau megis yr Adran Gwaith a Phensiynau i gyllido eu rhaglenni.

Mae ffynonellau eraill o gyllid a ddynodwyd o'r arolwg yn cynnwys Grant Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, symiau buddsoddi



budd cymunedol a chyllidwyr bach eraill yn gweithio ar lefel y gymuned. Mae sefydliadau hefyd wedi partneru gydag eraill i geisio defnyddio ffrydiau cyllid eraill i gefnogi rhaglenni cyllid craidd.

Siart 3: Cyllid ar gyfer Rhaglenni



Ffynhonnell: Arolwg CHC ar gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau LCC Mehefin 2016

Grwpiau a Dargedwyd


Yn yr arolwg roedd gennym ddiddordeb mewn canfod pa grwpiau neilltuol oedd yn cael eu targedu am gefnogaeth. Dengys y canlyniadau fod aelodau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau eang gyda phrosiectau wedi eu targedu at amrywiaeth o denantiaid a rhai heb fod yn denantiaid, a ddangosir yn Siart 3.

Mae prosiectau neu gefnogaeth ar gael i unrhyw denant, pa bynnag categori y maent ynddo. Caiff y rhan fwyaf o gefnogaeth ei dargedu at denantiaid sy'n ddi-waith hirdymor. Dynododd rhai cymdeithasau tai fod rhai dan 35 yn grŵp neilltuol y maent yn ei dargedu. Mae hyn mewn ymateb i newidiadau arfaethedig mewn budd-



dal tai lle mai dim ond cyfradd rhannu llety fydd ar gael i bobl ifanc dan 35 oed o 2018 ymlaen. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at ddiffyg cyfartalog o £21 yr wythnos.⁴

Siart 4 Grwpiau a Dargedwyd



Ffynhonnell: Arolwg CHC ar gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau LCC Mehefin 2016

Gweithio Partneriaeth

Er mwyn darparu rhaglenni, mae cymdeithasau tai wedi dynodi nifer o bartneriaid y maent yn ymwneud â nhw yn eu cynlluniau. Caiff llawer o'r gweithgareddau eu

⁴ Astudiaeth dichonolrwydd a gynhaliwyd i Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym Mai 2016 o'r rhagolygon o ddatblygu model tai hyfw ar gyfer y rhai sydd ond â hawl i'r gyfradd llety rhannu




darparu drwy weithio partneriaeth a phartneriaid trydydd sector yw'r garfan fwyaf o weithio ar y cyd ar gyfer cymdeithasau tai ar 82%. Mae contractwyr hefyd yn darparu cefnogaeth sylweddol ar gyfer gwaith cymdeithasau tai yn ymwneud â chyflogaeth a darparu sgiliau.

Dengys canlyniadau'r arolwg hefyd fod cymdeithasau tai hefyd yn cydweithio i ddatblygu cynlluniau rhanbarthol.

Mae partneriaid eraill a ddynodwyd yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, gwasanaethau carchar, Ymddiriedolaeth y Tywysog, Uned Atgyfeirio Disgyblion, Cymunedau yn Gyntaf, Adran Gwaith a Phensiynau, Gyrfa Cymru a sefydliadau cymunedol lleol.

Diagram 1: Sefydliadau partner



Mesur llwyddiant

Er y gall mesur llwyddiant rhaglenni fod yn her i gymdeithasau tai gan y gall ymgysylltu â thenantiaid fod yn broblem wirioneddol, mae ein haelodau'n dal i fod eisiau mesur llwyddiant ymyriadau a dynodi cyflogaeth ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn eu rhaglenni fel mesur o lwyddiant. Mae dros 82% o ymatebwyr wedi helpu tenantiaid i gael mynediad i gontractau cyflogaeth dros 16 awr. Mae cymdeithasau



tai hefyd wedi cefnogi tenantiaid i wirfoddoli a chael mynediad i gymwysterau penodol i swydd.

Eto sicrhawyd ystod o ganlyniadau drwy'r gefnogaeth gyda gwella hyder ac uchelgais cyfranogwyr yn uchel ymysg yr hyn a gyflawnwyd ar gyfer cymdeithasau tai.

Siart 5: Sut ydych chi'n mesur llwyddiant eich rhaglen?

Cyflogaeth dros 16 awr	81.82%
Cyflogaeth hyd at 16 awr	63.64%
Hyfforddiant pellach	68.18%
Prentisiaeth	63.64%
Profiad gwaith/interniaeth	68.18%
Rôl gwirfoddoli	72.73%
Cymhwyster (penodol i swydd)	72.73%
Cymhwyster (galwedigaethol)	63.64%
Cymhwyster (academaidd)	54.55%
Sefydlu busnes	45.45%
Gwella hyder ac uchelgais	77.27%
Arall (noder)	31.82%

Ffynhonnell: **Arolwg CHC ar gefnogaeth cyflogaeth a sgiliau LCC Mehefin 2016**

Canlyniadau Eraill

Mae canlyniadau eraill a gyflawnwyd drwy'r rhaglenni yn cynnwys dangos y ffordd ac atgyfeirio i wasanaethau priodol ar gyfer cefnogaeth, sesiynau blasu gwaith a chynlluniau benthyg cyfrifiadur i hwyluso cynhwysiant digidol i chwilio am swydd, ceisiadau a hyfforddiant arall.

Beth yw rhai o'r heriau?

Roedd gennym ddiddordeb canfod beth yw'r rhwystrau i gymdeithasau tai mewn darparu hyfforddiant cyflogaeth a sgiliau a dynodi rhai datrysiadau lle'n bosibl.



Mae'r heriau a ddynodwyd yn yr arolwg yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau a heriau gyda chyfranogiad tenantiaid mewn rhaglenni hyfforddiant.

Adnoddau Cyfyngedig

Gall diffyg neu adnoddau cyfyngedig, yn cynnwys staffio, fod yn broblem sylweddol i rai sefydliadau. Nid yw sefydliadau bob amser yn gallu darparu'r cymarebau staff gofynnol i alluogi mentora hyfforddeion a rhoi'r gefnogaeth ddwys un i un sydd ei hangen.

Cyllid

Gall cyllid ar gyfer rhaglenni gyfyngu gweithgaredd gan nad yw cyllid craidd yn anhysbydd ac nid yw pob tenant neu gyfranogydd yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer rhai ffynonellau cyllid.

Mae cymdeithasau tai yn profi'r heriau dilynol:

- Cyllid tymor byr ar gyfer prosiectau (e.e. Lift a Cymunedau yn Gyntaf) a hefyd gyllid tymor byr gan sefydliadau hyfforddiant yn ei gwneud yn anodd parhau gyda darpariaeth.
- Tynnu cyllid o raglenni tenantiaeth a chyflogadwyedd gan ei gwneud yn anodd cynnal rhaglenni.
- Anhawster cyflawni meini prawf caeth ffrydiau cyllid megis prosiectau cyllid Ewropeaidd. Mae'r rhwystrau wedi cynnwys cymhwyster y sawl sy'n cymryd rhan yn dibynnu ar ble maent yn byw a pha mor hir y buont yn ddi-waith a all arwain at ddalgylch cyfyngedig. Mae hefyd ymdeimlad fod y ffordd y caiff cyllid strwythurol ei ddyrannu yn arwain at i sefydliadau gystadlu am yr un cyfranogwyr.
- Gall partneriaethau gyda sefydliadau eraill fod yn her er bod dymuniad i gynyddu cydweithio.
- Mae diffyg cysondeb ar draws rhaglenni cefnogi cyflogadwyedd.
- Diffyg gwybodaeth ar gael ar denantiaid a symudodd ymlaen o'r rhaglen, yn achosi anawsterau wrth fesur llwyddiant.

Heriau i denantiaid

Soniodd ymatebwyr am yr heriau a all wynebu tenantiaid sy'n effeithio ar ddarpariaeth yr holl raglen yn cynnwys:



- Diffyg hyder pobl a fu allan o gyflogaeth am gyfnod hir
- Rhwystrau iaith
- Dibyniaeth ers cenedlaethau ar fudd-daliadau lles
- Problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol â rhan wrth ynysu pobl
- Pobl heb fod yn cyrchu'r budd-daliadau cywir i'w cefnogi a all achosi heriau wrth iddynt fynd ar raglenni nad ydynt yn addas iawn ar eu cyfer
- Rhwystrau amddifadedd lluosog. Mewn rhai ardaloedd mae'r seilwaith yn ei gwneud yn anodd i'r sawl sy'n cymryd rhan gan fod cludiant gwael, diffyg swyddi neu gyflogaeth gynaliadwy sy'n ei gwneud yn anodd i gyfranogwyr symud ymlaen.
- Diffyg gwasanaeth cyn ac ar ôl ysgol a gofal plant i gynorthwyo tenantiaid i gymryd rhan
- Heriau gyda chynhwysiant digidol.

Pan ofynnwyd iddynt os byddent yn parhau gyda rhaglenni yn y dyfodol, dywedodd yr holl aelodau sy'n ymwneud ar hyn o bryd â darparu prosiectau cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau y byddant yn parhau i gefnogi tenantiaid ac eraill i gyflogaeth, er rhai o'r heriau a allai wynebu eu sefydliadau. Fel y dywedodd un ymatebydd:

"Rydym yn gweithio ar sail a arweinir gan anghenion - cafodd ein staff eu hyfforddi i weithio er budd tenantiaid a mynd â nhw ar daith - rydym i mewn am hyn am yr hirdymor ac yn sylweddoli na fydd y canlyniadau yn dod dros nos i rai pobl"

Ymatebydd Arolwg CHC Mehefin 2016

Rhannu Arfer Da

Er mwyn hwyluso darpariaeth barhaus rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau, awgrymodd yr ymatebwyr hefyd ffyrdd blaengar ar gyfer cynnal rhaglenni a chynorthwyo mwy o denantiaid.

Awgrymodd ymatebwyr y byddai cynyddu argaeledd potiau bach/canolig o arian i dalu am redeg rhaglenni a gwell cysylltiadau gyda'r sector preifat yng nghyswllt cyflogaeth yn cefnogi datblygu cynlluniau cyflogaeth a sgiliau ymhellach. Awgrym arall oedd rhannu gwybodaeth drwy rwydwaith er mwyn i gymdeithasau tai rannu/cyrchu gwybodaeth hanfodol ar gyllid a rhannu arfer da ar hyfforddiant a chyflogaeth.



Astudiaethau Achos

Fel ffordd o rannu arfer da, fe wnaethom ddewis nifer o brosiectau gan ein haelodau sy'n dangos gwahanol ffyrdd o weithio i gefnogi tenantiaid gyda chyflogaeth a hyfforddiant sgiliau. Mae rhai cymdeithasau tai yn cymryd rhan mewn gweithio partneriaeth, eraill wedi creu mentrau cymdeithasol ac eraill yn defnyddio cyllid craidd i greu cyfleodd ar gyfer tenantiaid a phreswylwyr.

Cartrefi Melin: Melin Works

Mae Melin yn darparu cefnogaeth cyflogaeth i'w phreswylwyr a phobl sy'n byw o fewn cymunedau Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Phowys.

Dechreuodd gweithgaredd mewn cyflogaeth yn 2010 pan sicrhodd y sefydliad gyllid i gyflwyno prosiect oedd yn ymwneud â dosbarthu cyfrifiaduron ar draws ardaloedd Blaenau'r Cymoedd i wella cynhwysiant digidol a rhagolygon cyflogadwyedd pobl. Cafodd y prosiect ei gydnabod gan y CIH yn y Gwobrau Tai Cenedlaethol, gan gadarnhau syniadau ym Melin fod cefnogi pobl i gyflogaeth y peth iawn i'w wneud.

Yn 2011 cafodd Melin statws cyflenwr cymeradwy gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chafodd Melin Works ei greu. Cawsant eu contract cyntaf i redeg y prosiect Marchnad Lafur Ganolraddol (ILM) i weithio gyda 80 o bobl o ardal Sir Fynwy a'u helpu i ddod o hyd i waith yn y sector adeiladu.

Ers hynny mae Melin wedi ennill contractau i gyflwyno Twf Swyddi Cymru yng Nghasnewydd a Sir Fynwy, dau brosiect Porth Ymgysylltu (EG) yn canolbwyntio ar yrru a'r sector gofal ac yn fwy diweddar mae hefyd wedi gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar eu cynllun cyfredol y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol, gan sicrhau dau llyn grant uchafswm ar gyfer Torfaen a Blaenau Gwent a hefyd ar gyfer Sir Fynwy, lle maen nhw yw'r unig ddarparwyr. Maent hefyd wedi sicrhau llyn 2 ar gyfer ardal Blaenau Gwent lle byddant yn cefnogi cyfranogwyr drwy dalu iddynt am wneud lleoliad gwaith ar dâl am gyfnod penodol. Mae Melin hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid strategol yn yr awdurdod lleol ac fel canlyniad i hyn maent yn gyd-fuddiolwyr gyda Sir Fynwy i gyflwyno Inspire 2 Work a hefyd wedi sicrhau dwy gronfa Cymorth Hyblyg i alluogi Tîm Cyflogadwyedd Torfaen i weithio gyda rhieni unigol ar draws Torfaen. Mae cyfanswm gwerth contractau prosiectau ers dechrau Melin Works bellach dros £2.2 miliwn.



Cafodd 2155 o bobl eu cefnogi gyda chymwysterau achrededig, lleoliadau gwaith, hyfforddiant neu gyflogaeth. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig fe wnaeth Melin Works gefnogi 27 o'u preswylwyr i gyflogaeth. Mae Melin yn cydnabod mai dim ond rhan o'r busnes o helpu pobl i ganfod gwaith yw cefnogi cyfranogwyr a bod y cyfle i ddilyn lleoliad gwaith yr un mor bwysig. Mae Melin Works wedi datblygu partneriaethau gyda 357 o fusnesau lleol a gytunodd i ddarparu profiad gwaith a lleoliadau ar gyfer pobl ddi-waith. Yn ogystal â chefnogi'r unigolyn yn ceisio cyflogaeth, mae hefyd yn gweithredu fel cyfnod treialu i'r cyflogwr a all fynd ymlaen i gyflogi'r unigolyn.

Y Prentis: Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy

Mae Y Prentis yn bartneriaeth rhwng Cartrefi Melin a Chyngor Sir Fynwy (CMC2) ac mae'n derbyn cyllid gan Fwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu (CITB) a Llywodraeth Cymru. Mae Y Prentis yn cyflogi'r prentisiaid, yn darparu'r hyfforddiant ac yn gweithio gyda detholiad o gontractwyr i ennill profiad gwaith ar y safle i roi cyfle iddynt sicrhau y caiff y brentisiaeth ei chwblhau. Mae Y Prentis yn cyflogi prentisiaid ar ran y diwydiant ac yn mynd â nhw drwy gylch o leoliadau i alluogi cyflogwyr i gymryd rhan heb orfod ymrwymo i gyfnod dwy flynedd lawn. Mae'r lleoliadau am isafswm o 6 wythnos ac uchafswm o 2 flynedd. Mae Y Prentis yn gweithio gyda chleientiaid allweddol yn y sector cyhoeddus a chymdeithasau tai yn yr ardal i'w helpu i gyflawni'r targedau ar gyfer recriwtio a hyfforddiant.

Mae Y Prentis wedi cyflawni llawer o lwyddiant ers ei sefydlu yn 2012, yn cynnwys:

- Recriwtio dros 130 prentis mewn 7 crefft wahanol, yn cynnwys bricwyr, seiri coed, gweithwyr daear, plymwyr, trydanwyr, plastrwyr, peintwyr ac addurnwyr.
- Sicrhau cyfradd cyflawni cymwysterau 81% ar gyfer prentisiaid.
- Sicrhau y cafodd 31 prentis eu cyflogi gan eu cyflogwyr ar ôl ennill eu cymhwyster.
- Cefnogi dros 50 prentis y flwyddyn mewn gwahanol grefftau.
- Creu fframwaith busnes cynhwysfawr o 45 contractwr, 17 cleient a 10 awdurdod lleol.
- Ffurio cysylltiadau cryf gydag Ysgolion 21ain Ganrif a chynlluniau blaengar eraill.
- Ehangu i brentisiaid technegol (maint-arolygwyr) ac ymchwilio marchnadoedd posibl gofal, technoleg ddigidol a manwerthu



- Sefydlu panel ymgynghorol cryf o aelodau profiadol, medrus.

Dywedodd Mandy Summers, Rheolydd Rhaglen:

“Ein prif nod yw darparu gwasanaeth sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflogaeth gynaliadwy o fewn y diwydiant adeiladu. Rydym yn galluogi prentisiaid i gwblhau rhaglen brentisiaeth lawn drwy weithio gyda nifer o wahanol gyflogwyr er mwyn ennill y setiau sgiliau maent eu hangen i gael cymwysterau. Mae cynhyrchu crefftwyr cymwys nid yn unig yn diwallu anghenion a heriau diwydiant adeiladu heddiw ond yn fwy pwysig yn sicrhau llif cynaliadwy o grefftwyr cymwys ar gyfer y galw cynyddol am lafur medrus yn y dyfodol.”

Creu Mentrau Cymdeithasol: Cartrefi Conwy, Creu Menter



Daeth Cartrefi Conwy ag ystod o ffrydiau gwaith yn fewnol drwy Creu Menter. Mae Creu Menter yn is-gwmni eiddo llwyr i Cartrefi Conwy Cyfyngedig a chafodd ei ymgorffori fel cwmni budd cymunedol a daeth yn llwyr weithredol fel menter gymdeithasol ym mis Ebrill 2015. Daeth y cynllun o ymgyrch y sefydliad i gynnal a chadw eu heiddo i safon dda a chydabod yr angen i ddarparu sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth i denantiaid di-waith a'r gymuned yn ehangach. Mae Creu Menter yn awr yn darparu ystod o wasanaethau i'r sefydliad sy'n cynnwys gwasanaethu nwy, ffensio, clirio a glanhau eiddo, cynnal a chadw eiddo, peintio ac addurno a chynnal a



chadw tir a gerddi. Mae Cartrefi Conwy wedi creu academi cyflogaeth sy'n gweithio wrth ochr Creu Menter i gyflenwi swyddi a neilltuwyd ar gyfer tenantiaid di-waith am hyd at 12 mis o gontract taledig.

Tra'u bod ar leoliad taledig mae pob tenant yn derbyn hyfforddiant, cefnogaeth a mentora. Cânt wedyn eu cynorthwyo i sicrhau cyflogaeth leol ar ddiwedd y 12 mis sy'n 'rhyddhau' eu swydd i denant arall gael budd ohoni.

Hyd yma mae Creu Menter wedi creu 27 o gyfleoedd swydd newydd, yn cynnwys chwe hyfforddeiaeth 12 mis ar gyfer tenantiaid Cartrefi Conwy, 155 awr o wirfoddoli, dod â sgiliau cyflogadwyedd staff i denantiaid sy'n ymdrechu i fynd i waith ac yn y broses greu tîm mwy cynhyrchiol ymysg y llafurwyr medrus a all ganolbwyntio ar waith arall tra bod y prentis yn canolbwyntio ar wasanaethau trwsio ad-hoc.

Gweithio Partneriaeth - Cartrefi Cymunedol Tai Calon

Cymerodd Tai Calon ran mewn rhaglen lleoliad gwaith ar gyfer tenantiaid ac aelodau di-waith o'r gymuned drwy gontract masnachol gyda'r Adran Gwaith a Sgiliau ar ran Working Links a A19 Skills.

Mae Tai Calon yn gweithio gyda'r diwaith hirdymor sy'n wynebu rhwystrau lluosog i ganfod swydd ac a all fod wedi bod yn ddiwaith am nifer o flynyddoedd, heb fawr o brofiad gwaith, yn brin o hyder a hunan-barch. Mae'r prosiect yn cyflwyno cefnogaeth un i un gan fynd i'r afael â rhwystrau lluosog a cymhleth i geisio cyflogaeth sy'n cynnwys problemau dyled, tlodi tanwydd, cam-drin domestig a phroblemau'n ymwneud â chaethiwed i alchol a/neu syleddau a hefyd yn rhoi arweiniad ar gyllidebu a chynhwysiant digidol.

Caiff lleoliadau 6 mis eu dynodi drwy gysylltiadau gyda chontractwyr a'r gymuned a chaiff rhai cleientiaid eu lleoli o fewn Tai Calon. Mae mwy na hanner wedi ennill profiad 'gwaith go iawn' o fewn timau Gwasanaethau Cwsmeriaid, Gwasanaethau Eiddo, Cyllid, Cymunedau a Chyfleusterau.

Mae dros 100 o bobl wedi dechrau lleoliad yn llwyddiannus dros y 2 flynedd ddiwethaf ac wedi gweld cyfraddau cyson y gellir eu cymharu â rhannau eraill o Gymru.



Mae Tai Calon hefyd wedi datblygu canllawiau arfer da ar sut i lenwi'r gwaith papur angenrheidiol ar gyfer contractau. Cafodd hyn yn awr ei fabwysiadu ar draws y contract gan holl bartneriaid y gadwyn gyflenwi ac mae'n helpu eraill i gyflwyno'r rhaglen.

Stori bersonol

Ymunodd GJ â ni ar y rhaglen CWP ar ôl bod yn ddi-waith o flynyddoedd. Roedd GJ wedi gweithio'n flaenorol ond bu'n gaeth i gyffuriau am nifer o flynyddoedd a hefyd yn dioddef o iechyd gwael a salwch meddwl. Fe wnaethom leoli GJ gyda'n hadran Amgylcheddol a gweithio'n agos iawn gydag ef tra'r oedd yn adennill ei hyder. Daeth swydd barhaol ar gael ar ôl pedwar mis ar leoliad. Gwnaeth GJ gais a chafodd hyfforddiant ar lenwi ffurflen gais a pharatoi ar gyfer cyfweiliad. Bu GJ yn llwyddiannus ac mae bellach yn aelod uchel ei barch a gwerthfawr o Tai Calon. Mae GJ wedi dweud yn agored ei bod yn debygol iawn y byddai wedi dychwelyd i'w hen ffordd o fyw oni bai am ein cefnogaeth a'r cyfle y gwnaethom ei roi iddo.

Stori Bersonol CWP Clive S

Mae Clive yn denant i Tai Calon a chafodd ei atgyfeirio atom ar raglen CWP. Roedd yn barchus iawn yn ei sesiwn cynefino cyntaf ond wedi ei ddadurthio a dywedodd "ar fy oed i, does neb yn barod cymryd siawns arna i. Rydwi wedi gweithio ar hyd fy oes bron ond rwyf ar y domen ac nid oes neb yn malio botwm!"

Roedd gan Clive hanes o weithio mewn Datblygu Cymunedol ond nid oedd yn gyrru car ac yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith yn lleol. Gallasom drefnu lleoliad yn cynnal a chadw tir lleoliad hanesyddol lleol o fewn pellter cerdded i gartref Clive. Gwnaeth Clive yn dda iawn ar ei leoliad ac o fewn cyfnod byr iawn roedd yn goruchwyllo grŵp o wirfoddolwyr. Gan fod lleoliad Clive yn dod i ben, sylweddolodd rheolwr y lleoliad ei fod wedi dod yn aelod allweddol o staff a chynigiodd swydd gyflogedig iddo.

Mae Clive yn parhau i fod mewn cyflogaeth a dywedodd fod Tai Calon "wedi rhoi fy urddas yn ôl i mi".



Bron Afon

Academi Hyfforddiant That Works

Dyweddod tenantiaid a chymunedau Bron Afon eu bod angen help a chefnogaeth i gysylltu gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth i greu cyfleoedd sy'n gwella cyfleoedd bywyd.

Fel rhan o'u blaenoriaeth gorfforaethol lluniodd Bron Afon fframwaith gweithredu sy'n anelu i helpu trechu tlodi, adeiladu gwytnwch a chreu annibyniaeth ymysg ei thenantiaid, yn arbennig y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i sicrhau tenantiaethau cynaliadwy a lleihau heriau Diwygio Lles. Drwy'r fframwaith mae'r sefydliad yn anelu cefnogi rhaglenni i gynyddu inwcm drwy gysylltu a chreu rhaglenni cyflogaeth a chefnogaeth i ostwng y nifer sydd heb waith. Mae'r fframwaith yn cysylltu gyda nifer o strategaethau presennol y sefydliad yn cynnwys *Strategaeth Cynhwysiant a Chefnogaeth 2015-2018*, *Strategaeth Ymyriad Cynnar ac Ataliaeth a'r Strategaeth Datblygu Sefydliadol*. Mae'r fframwaith yn cyflwyno *Academi Hyfforddiant That Works* Bron Afon sy'n dod ynghyd â'r holl feysydd hyfforddiant a chyflogadwyedd a recriwtio a hyfforddiant wedi'i dargedu. Mae'n rhoi manylion sut y bydd *Academi Hyfforddiant That Works* yn gweithio'n ymarferol, gan roi dull gweithredu cydlynol i gasglu data a deilliannau a'i effaith ar berfformiad unigolion a busnes. Dros gyfnod o 3 blynedd mae Bron Afon wedi profi gwahanol fodolau darpariaeth i lunio'r brand 'That Works' sydd bellach wedi ennill ei blwyf.

Cafodd twf a datblygiad cyflym portffolio 'That Works' ei ysgogi gan fuddsoddiad o dros £400,000 a ddaeth o lwybrau cyllid tai heb fod yn draddodiadol. Rhoddodd hyn gyfle i feddwl tu allan i'r blwch ac i brofi arferion gwaith newydd i greu newid sylweddol mewn darpariaeth gwasanaeth maes o law. Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth amlap pwrpasol (un i un a hefyd seiliedig ar grŵp) yn defnyddio dull datblygu cymunedol llwyr i wneud yn siŵr fod yr adeilad yn cynyddu cydnherthedd, annibyniaeth a chred y gall pethau newid. maent yn cynnal dewislen o gefnogaeth datblygu parhaus a ddangosir ar hyn o bryd yn yn 'Tŷ Cyfle' Own2Feet Living, sydd â dulliau blaengar o recriwtio, darpariaeth a dilyniant yn cynnwys datrysiadau tai ar gyfer pobl drwy Own2Feet a rhaglenni cyflogadwyedd 'That Works'. Gan sylweddoli



nad yw rhaglenni cyflogadwyedd yn gweitho ar eu pen eu hunain, mae Bron Afon wedi gweithredu swyddogaeth gweithiwr allweddol yn defnyddio egwyddorion Teuluoedd yn Gyntaf. Mae'n rhoi dull holistig i adeiladu cydnerthedd drwy ddileu rhwystrau i gynyddu sgiliau, ailhyfforddi a chael profiad ymarferol, yn eu tro yn trawsnewid uchelgais i lwybr gyrfa a ddewiswyd sy'n cryfhau'r gred fod 'mewn gwaith yn talu'. I sicrhau y cedwir cynifer ag sydd modd o gyrchfannau cyflogaeth, mae Bron Afon yn olrhain a chefnogi i sicrhau dynodi problemau ar gam cynnar i osgoi colli swyddi a gosod sylfeini ar gyfer cyflogaeth hirdymor gadarnhaol.

Academi Hyfforddiant That Works Bron Afon -

128 graddedigion yn ystod Ebrill 2016 - Mehefin 2016 yn sicrhau canlyniadau lluosog...

23 unigolyn yn cael cefnogaeth gyda llythrennedd sgiliau sylfaenol

14 NEETS **8** i waith

109 yn ymwneud â chefnogaeth digidol/ariannol

23 prentisiaid yn weithgar, **1** prentis wedi sicrhau gwaith rhan-amser

95 cymhwyster gydag achrediad

33 cyfanswm cyflogedig cyfanswm addysg bellach/hyfforddiant

12 lleoliad gwaith

60 o wirfoddolwyr wedi ymsefydlu

12 Clwb Gwaith yn cwblhau rhaglen Menter Busnes Ymddiriedolaeth y Tywysog

23 unigolyn wedi'u cefnogi gyda sgiliau llythrennedd sylfaenol

30 tenant wedi'u cefnogi i gael mynediad i Gronfa Caledi. Cyfanswm a ddyfarnwyd £7570

95 cymhwyster gydag achrediad

Y Ffordd Ymlaen

- Cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer rhai dan 35
- Gweithredu cyfres o gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant arloesol
- Medi'r dysgu o fodel Tŷ Cyfle a That Works i ddarparu datrysiadau tai amgen
- Dileu rhwystrau i ymgysylltu a mynediad i wasanaethu i liniaru effaith diwygio lles
- Darparu sgiliau seiliedig ar waith i'r rhai y mae gofynion yr oblygiad ieuencid yn effeithio arnynt (Ebrill 2017)



Casgliad ac argymhellion

Mae'r papur gwybodaeth yn dangos fod cymdeithasau tai yng Nghymru yn greiddiol i ddarpariaeth cyflogaeth a hyfforddiant sgiliau i'w tenantiaid a chymunedau. Mae gan gymdeithasau tai ymroddiad i barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn y mae llawer yn eu gweld fel rhan o'u gwaith creiddiol a dystir drwy nifer uchel y prosiectau sy'n derbyn cyllid craidd.

Mae cymdeithasau tai hefyd wedi mabwysiadu nifer o ffyrdd blaengar ar gyfer cefnogi tenantiaid, yn cynnwys defnyddio amrywiaeth o ffrydiau cyllid, gweithio gyda sefydliadau eraill fel partneriaid ar brosiectau, creu mentrau cymdeithasol i gynnal rhaglenni, canolbwyntio ar raglenni i dargedu grwpiau penodol difreintiedig ac ymgysylltu gyda'r sector preifat i greu cyfleoedd cyflogaeth.

Fodd bynnag yn yr hinsawdd economaidd presennol, mae cymdeithasau tai angen cefnogaeth barhaus yn nhermau cyllid cyson gan y dynodir mai hyn yw un o'r heriau mwyaf i ddarparu rhaglenni cyflogaeth a sgiliau. Gyda chyllid ymroddedig, gall cymdeithasau tai wneud cyfraniad sylweddol i gyflawni targed Llywodraeth Cymru o ddarparu 100,000 o brentisiaethau newydd o fewn tymor presennol y Cynulliad. I gyflawni hyn rydym yn argymhell fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai ac yn eu defnyddio i gyflawni'r targed o 100,000. Gellid cefnogi hyn gyda mynediad i gyllid i ddarparu rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant sy'n cefnogi rhai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas.

Mae Cartrefi Cymunedol Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu 'Cytuniad Tai' ar gyfer y tymor hwn o'r Cynulliad. Fel rhan o'r cytuniad hwn, mae'r sector yn ymrwymo i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth yn cynnwys swyddi a phrentisiaethau a chynnig datblygiad a chefnogaeth sgiliau i denantiaid. Bydd manylion llawn y cytuniad ar gael yn yr Hydref.

Gall cymdeithasau tai hefyd fod angen cymorth i ymgysylltu gyda phartneriaid sector preifat a cheisio llwybrau hyfyw o gyflogaeth, yn arbennig mewn ardaloedd lle mae'r isadeiledd yn wael a llai o gyfleoedd. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i bob sector a rhaglen gydweithio ac ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i arwain ar ddod â'r sector ynghyd i arwain yr agenda cyflogaeth a sgiliau.

I gael mwy o wybodaeth ar gynnwys y papur gwybodaeth yma, cysylltwch â Selina Moyo, Swyddog Polisi, Cartrefi Cymunedol Community Housing Cymru selina-moyo@hcymru.org.uk



Atodiad 1 - Holiadur Cyflogaeth a Sgiliau CHC

1. Gwybodaeth Gyswllt

Enw
Cwmni
Cyfeiriad
Cyfeiriad 2
Dinas/Tref
Cod Post
Cyfeiriad E-bost
Rhif Ffôn

2 A yw'ch sefydliad yn cymryd rhan mewn unrhyw raglen i gefnogi tenantiaid gyda chyflogaeth a datblygu sgiliau?

- Ydi
- Na

3. Os ydych, pa mor hir fu'r rhaglenni yn rhedeg?

- Dan 1 flwyddyn
- 2-3 blynedd
- Dros 3 blynedd
- 3- 5 blynedd
- Dros 5 mlynedd

4. Sut caiff y rhaglenni eu cyllido?

- Cronfa Gymdeithasol Ewrop
- Rhaglen LIFT
- Rhaglen Gwaith
- Awdurdod Lleol
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Contractwyr
- Canolfan Byd Gwaith



- Loteri Fawr
- Cymunedau yn Gyntaf
- Cyllid craidd
- Arall (manylion)

5. Gyda pha bartneriaid ydych chi'n gweithio i ddarparu'r rhaglen, os oes rhai?

- Contractwyr
- Awdurdod Lleol
- Cymdeithasau Tai Eraill
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Darparwyr addysg uwchradd neu drydyddol
- Arall (manylion)

6. Pa grwpiau ydych chi'n eu targedu/cefnogi?

- Tenantiaid
- Rhai heb fod yn denantiaid
- Di-waith hirdymor
- Pobl ifanc
- Pobl ifanc heb fod mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth
- 50+ oed
- Rhieni sengl
- Pobl gyda phroblemau alcohol/cyffuriau
- Teuluoedd
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Cyn-droseddwyr
- Pobl gydag anghenion iaith
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Du a Lleiafrif Ethnig (BAME)
- Arall (manylion)



7. Pa gynlluniau ydych chi'n ymwneud â nhw?

- Prentisiaethau - darparu lleoliadau i denantiaid o fewn eich sefydliad
- Prentisiaethau - cefnogi tenantiaid i brentisiaethau gyda phartneriaid, contractwyr neu yn y gymuned leol
- Hyfforddiant a chefnogaeth dan arweiniad cynghorydd
- Adeiladu hyder
- Ysgrifennu CV/helpu gyda chwilio am swydd
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Broceriaeth swyddi
- Clybiau swydd
- Cymhwyster penodol am swydd
- Hyfforddiant galwedigaethol
- Hyfforddiant heb fod yn alwedigaethol
- Hyfforddiant cyn-cyflogaeth
- Hunangyflogaeth
- Gwirfoddoli
- Profiad gwaith - ar dâl
- Profiad gwaith - heb dâl
- Arall (manylion)

8. Sut ydych chi'n mesur llwyddiant i'r rhaglenni?

- Cyflogaeth dros 16 awr
- Cyflogaeth hyd at 16 awr
- Hyfforddiant pellach
- Prentisiaeth
- Profiad gwaith/interniaeth
- Rôl wirfoddoli
- Cymhwyster (penodol i swydd)
- Cymhwyster (galwedigaethol)
- Cymhwyster (academaidd)
- Sefydlu busnes



Cynyddu hyder ac uchelgais

Arall (manylion)

9. Faint o aelodau staff sy'n cymryd rhan yn y prosiect?

10. Os ydych yn gweitho gyda thenantiaid faint o denantiaid wnaethoch chi eu cefnogi rhwng Ebrill 2015 - Ebrill 2016?

11. Rhowch wybodaeth ar unrhyw anawsterau neu brofiad a gawsoch a gafodd effaith negyddol ar lwyddiant neu botensial eich prosiect.

12 Ydych chi'n bwriadu parhau gyda'ch prosiectau yn y dyfodol?

Ydw

Na

13. Os na, pam nad ydych chi'n parhau?